

ADFER NATUR: SYNIADAU AR GYFER GWEITHREDU



BUSNESAU

Gall ymgorffori arferion ecogyfeillgar yn eich busnes fod o fudd i fioamrywiaeth, arbed costau a gwella lles staff.

Yn Sir Gaerfyrddin mae busnes yn ymestyn o'r gweithrediadau ar raddfa fawr yng ngwaith dur Trostre i fentrau ar raddfa fach sy'n gweithredu o weithdai, parciau busnes a chartrefi a'r tir o'u cwmpas.

Dychmygwch pa mor ddeniadol y gallai eich gweithle fod petaech yn gallu clywed adar yn canu, gweld gloynnod byw lliwgar a charpedi o flodau hardd, boed yn rhai gwyllt neu wedi'u plannu. Yn dda i'ch delwedd ac yn dda i les eich staff. Gallwch helpu i wneud hyn trwy ddefnyddio'r lawntiau, gwelyau blodau neu hyd yn oed y ffensys o amgylch eich safle.

Gall bioamrywiaeth gyfoethocach ar eich safle hefyd eich helpu i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Mae lawnt yn llawn blodau yn amsugno mwy o garbon atmosfferig a glaw trwm na lawnt o laswellt yn unig. Bydd ychwanegu ychydig o goed a phlanhigion brodorol sy'n denu pryfed peillio hefyd yn eich helpu i gyrraedd eich targedau o ran lleihau carbon.



DARGANFOD

Os ydych am ddarganfod pa fywyd gwyllt sy'n byw yn eich ardal chi, bydd gwefan Aderyn yn eich helpu. Gallwch fewnbynnu eich cod post a bydd yn dweud wrthyb beth sydd wedi'i gofnodi yn eich ardal, neu gallwch chwilio am rywogaethau penodol i weld pa mor brin neu gyffredin yw rhywbeth yng Nghymru. <https://aderyn.lercwales.org.uk>

Dewch i adnabod eich ardal leol i weld pa gyfleoedd sydd gennych i gyfoethogi'r bywyd gwyllt yno. Pa ddarn o laswelltir y gellid gadael iddo dyfu, ble y gallech blannu ychydig o goed, ble y gallech greu pwll dŵr neu bentwr coed?



RHEOLI

Defnyddiwch arbenigedd y Partneriaethau Natur Lleol a'r sefydliadau sy'n rhan ohonynt: gallant helpu i roi cyngor ar ba gamau y gallech eu cymryd ar eich safle.

[Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin](#)

CREU

Ceisiwch greu mosäig neu glytwaith o gynefinoedd cysylltiedig. Gallwch gweithio gyda nodweddion naturiol eich tir a chynorthwyo'r hyn sydd yno neu creuwch ardd bywyd gwyllt gyda planhigion peillwyr cyfeillgar..



DIOGELU

Ceisiwch osgoi defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr a pheidiwch â defnyddio mawn – defnyddiwch ddewisiadau mawn eraill a helpwch i achub ein mawnogydd gwerthfawr. Cymerwch ran mewn prosiect bywyd gwyllt lleol a gwarchodwch eich safleoedd bywyd gwyllt lleol.

I gael rhagor o fanylion edrychwch ar:

- Darganfyddwch fwy am natur yn Sir Gaerfyrddin yn [Bioamrywiaeth](#)
- Cysylltwch â Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk am ragor o wybodaeth neu os hoffech gofrestru ar gyfer e-byst Newyddion Natur.
- Adnoddau ar gyfer [Gwella Bioamrywiaeth](#) – Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

